# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016

Amser: 08.30 - 08.56

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Byddai'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gwneud datganiad ar Lifogydd yng Nghymru.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth.

Ddydd Mercher, cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai pleidlais yn digwydd yn union ar ôl y ddadl ar gynnig cyntaf y ddadl ar Fil Cymru drafft. Byddai unrhyw bleidleisio ar y cynigion eraill yn cael ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio, a fyddai'n digwydd cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i aildrefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2016 –**

- ~~Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (120 munud)~~ symudwyd i 3 Chwefror
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud) – eitem wedi'i symud o 27 Ionawr.

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud) – eitem wedi'i symud o 27 Ionawr.

**Dydd Mercher 27 Ionawr 2016 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~
- ~~Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (15 munud)~~ symudwyd i 10 Chwefror

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 27 Ionawr 2016 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 01-16) (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-16) (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 3 Chwefror 2016**

- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (120 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Tai a Chynllunio

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Tai a Chynllunio.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 18 Chwefror 2016 er mwyn i’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 23 Chwefror 2016.

### 4.2 Papur i’w nodi – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol

Nododd y Pwyllgor lythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynglŷn â dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol cyn y diddymiad. Hysbysodd y Gweinidog y Rheolwyr Busnes ei bod wedi ysgrifennu at arweinydd Tŷ’r Cyffredin i bwysleisio’r amser cyfyngedig sydd ar gael i graffu ac i nodi bod unrhyw Filiau neu welliannau a gyflwynir ar ôl 2 Chwefror 2016 yn annhebygol o sicrhau cydsyniad deddfwriaethol.

### 4.3 Papur i'w nodi – Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol: Rhaglen Ddeddfwriaethol y DU ar gyfer 2015/2016

Nododd y Rheolwyr Busnes bapur a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn amlinellu’r Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol a ddisgwylir cyn y diddymiad.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

### 5.1 Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ddeddfu yng Nghymru

Trafododd y Rheolwyr Busnes ymateb drafft diwygiedig i’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â’i argymhellion yn yr adroddiad ar ddeddfu yng Nghymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Busnes.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar rai newidiadau pellach i’r drafft, a gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth ddosbarthu drafft terfynol i gytuno arno drwy e-bost.

## 6 Pwyllgorau

### 6.1 Papur i'w nodi - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Llywydd:

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Mick Antoniw at y Llywydd ynghylch ei ymddiswyddiad fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i wahodd y grŵp Llafur i enwebu Aelod i lenwi'r swydd wag.